

# Y gyfraith ynglŷn â gyrru o dan ddylanwad cyffuriau

THINK!

Mae hi yn erbyn y gyfraith i yrru o dan ddylanwad cyffuriau anghyfreithlon, neu os mae cyffur arbenning dros lefel penodol yn eich gwaed.

Gall maint bychan o gyffuriau anghyfreithlon eich rhoi dros y terfyn cyfreithiol.

Yn debyg i brawf anadl, mae gan yr heddlu brawf sydd yn ei gwneud hi'n haws i ddal pobl sy'n gyrru o dan ddylanwad cyffuriau anghyfreithlon.

Mae cymryd cyffuriau anghyfreithlon yn amharu ar eich gallu i yrru ac yn hynod o beryglus. Os ydych yn cael eich dal o dan ddylanwad cyffuriau pan yn gyrru gallech wynebu:

- Dirwy diderfyn
- Ban gyrru o oleiaf 12 mis
- Tuag at 6 mis o garchar
- Cofnod troseddol
- Arnodiad ar eich trwydded yrru am 11 mlynedd

Gall moddion arbennig hefyd effeithio eich gallu i yrru. Ymgynghorwch â'ch meddyg neu fferyllydd.

Chwiliwch **THINK drug driving** am fwy o wybodaeth.

**Peidiwch â chymryd cyffuriau a gyrru**

Published by the Department for Transport
© Crown copyright 2015 Reprinted in the UK February 2016 on paper containing 100% recycled fibre

Product code TINF1488W